



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

CYNLLUN GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Drafft

Rhagfyr 2021



Contents

| | |
|--|----|
| Rhan 1 – Cyflwyniad | 3 |
| Adran 2 – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau..... | 4 |
| Adran 3 – Safonau Llundio Polisi | 7 |
| Adran 4 – Safonau Gweithredu | 8 |
| Adran 5 – Monitro a goruchwylio..... | 11 |

DRAFT

Rhan 1 – Cyflwyniad

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal gyda'r Saesneg ac ni ddylid ei drin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg mwyach ond yn hytrach rhaid iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau Iaith Gymraeg cenedlaethol, mewn perthynas â'r Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 30^{ain} Medi 2015. Roedd hyn yn amlinellu dyletswydd y Cyngor i fodloni 171 o Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Crëwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r safonau canlynol y mae dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gydymffurfio â hwy – 157, 163, 169 a 159, 165, 171. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisïau a'r safonau gweithredol a osodir i'r Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer goruchwyllo, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn; gan gynnwys cynnydd.

Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau a osodir i'r Cyngor ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael [yma](#).

Adran 2 – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

| Sut rydym yn bwriadu cydymffurfio | Hyrwyddo a hwyluso |
|---|---|
| <p>Gohebiaeth Pan fyddwn yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg). Pan fyddwn yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bobl, byddwn yn anfon fersiwn Gymraeg ar yr un pryd. Bydd y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg.</p> | <p>Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i hyrwyddo a hwyluso gweithredu'r safonau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae system ffôn y Cyngor yn rhoi cyfarchiad yn Gymraeg yn dweud bod gwasanaeth Gymraeg ar gael. • Mae'r Cyngor yn defnyddio ei fewnrwyd i ddarparu canllawiau a thempledi i gefnogi staff i gydymffurfio â'r safonau. Mae stondinau desg hefyd wedi'u datblygu a'u dosbarthu ar draws y Cyngor i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle e.e. wrth ateb y ffôn. • Defnyddir nifer o brosesau ar draws y Cyngor i gofnodi dewis iaith. • Mae e-byst allanol a thempledi llythyron swyddogol y Cyngor yn cynnwys 'Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog' / 'We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual'. • Mae'r ymgyrch yn ceisio recriwtio siaradwyr Cymraeg yn y swyddi hyn sy'n wynebu cwsmeriaid. Penodwyd staff |
| <p>Galwadau Ffôn Bydd galwadau'n cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a bydd opsiwn Cymraeg ar gael ar system ffôn y Cyngor. Bydd tîm o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gymryd yr alwad hyd nes y bydd angen trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg, sy'n gallu darparu gwasanaeth ar fater penodol, ac nad oes unrhyw aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y mater penodol hwnnw.</p> | |
| <p>Gwasanaethau Derbynfya Bydd pobl sy'n ymweld â derbynfa'r Cyngor yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog ac yn cael mynediad i'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg. Bydd logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos, a bydd y staff yn gwisgo lanyardau i ddangos pa staff sy'n gallu cyflwyno'r ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> | |
| <p>Cyfarfodydd Pan fo angen, bydd y Cyngor yn hwyluso cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> | |
| <p>Digwyddiadau Cyhoeddus Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hysbysebu yn unol â safonau'r Gymraeg fel bod gwybodaeth am y digwyddiad yn ddwyieithog. Bydd swyddogion sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar gael.</p> | |

| | |
|---|--|
| <p>Cyhoeddusrwydd, Deunyddiau Marchnata a Dogfennau Cyffredinol y Cyngor Bydd dogfennau dwyieithog yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg' 'This document is available in Welsh', yn cael ei nodi ar y ddogfen.</p> | <p>ychwanegol sy'n siarad Cymraeg mewn rolau allweddol sy'n wynebu'r rheng flaen.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparwyd canllawiau ynghylch cynnal cyfarfodydd dwyieithog (mewnol ac allanol). Mae hyn ac amryw o ddarnau eraill o wybodaeth ar gael drwy fewnwyd y Cyngor a 'llyfryn Y Gymraeg – Beth sydd wedi newid'. • Mae'r wefan a'r gweffurflenni ar gael yn Gymraeg (gydag opsiwn i drosglwyddo i fersiwn Gymraeg a Saesneg y wefan), mae agendâu a chofnodion dwyieithog ar gael ar wefan y Cyngor. • Mae gwybodaeth am wasanaethau cyfieithu ar gael ar y fewnwyd. Gellir trefnu cyfieithu ar y pryd hefyd. • Mae'r geiriad canlynol wedi'i gynnwys ar ddogfennau Saesneg: 'Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg' 'This document is available in Welsh'. • Mae'r staff wedi derbyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Ategir hyn gyda hyfforddiant ychwanegol fel rhan o strategaeth iaith Gymraeg newydd y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar fewnwyd y Cyngor. • Mae arwyddion yn y dderbynfa, llofnodion e-bost a logos ar gael ar y fewnwyd. Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg ar gael i roi cymorth a chyngor. Mae gan y Cyngor Aelod Etholedig sy'n Hyrwyddwr y Gymraeg (Aelod Cabinet) a swyddogion Pencampwyr y Gymraeg ar draws y Cyngor. |
| <p>Dogfennau a Ffurflenni Bydd dogfennau a ffurflenni, sy'n ofynnol gan y Safonau ac a restrir yn yr hysbysiad Cydymffurfio, ar gael yn ddwyieithog.</p> | |
| <p>Arwyddion a Hysbysiadau Wrth godi arwyddion newydd, byddant yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.</p> | |
| <p>Gwefannau a Gwasanaethau Ar-lein Bydd gwefan, apiau, systemau hunanwasanaeth a ffurflenni ar-lein y Cyngor ar gael yn ddwyieithog. Bydd unrhyw gyhoeddiadau/negeseuon cyhoeddus a gyflwynir dros system cyhoeddi gyhoeddus yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> | |
| <p>Dyfarnu Grantiau Croesewir ceisiadau yn Gymraeg. Bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r Gymraeg drwy'r broses grant.</p> | |
| <p>Dyfarnu Contractau Bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am contract yn Gymraeg a gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, gan ddweud na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Defnyddir gwasanaeth cyfieithu (Cymraeg i Saesneg) yn ôl y gofyn yn ystod y broses (e.e. yn ystod y cyfweiliad). Os cyflwynir tendr yn Gymraeg, rhoddir gwybod i'r tendrwr am y penderfyniad yn Gymraeg.</p> | |

Cyrsiau a gynigir gan gorff

Os yw'r Cyngor yn cynnig cwrs/cyrsiau i'r cyhoedd, gofynnir i ddysgwyr a yw'n well ganddynt ymgymryd â chyrsiau yn Gymraeg a darparu ar gyfer cyrsiau lle bo angen.

- Mae'r Cyngor yn adnewyddu ei broses sefydlu. Mae safonau'r Gymraeg yn rhan o hyn.
- Mae cwrs Cymraeg lefel mynediad yn cael ei hyrwyddo i'r holl staff. Mae staff sy'n wynebu cwsmeriaid wedi cwblhau hyn. Mae hyn hefyd yn ofyniad yn y broses benodi i bob rôl newydd.

DRAFT

Adran 3 – Safonau Llunio Polisi

| Sut rydym yn bwriadu cydymffurfio | Hyrwyddo a hwyluso |
|--|--|
| <p>Penderfyniadau Polisi ac Aseiad o'r Gymraeg Bydd y Cyngor yn ymgorffori'r Gymraeg yn ei benderfyniadau a'i aseidiadau polisi. Bydd y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ac ni chaiff ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> | <ul style="list-style-type: none">• Mae gan y Cyngor aseiad effaith integredig sy'n ofynnol wrth wneud unrhyw benderfyniad corfforaethol (e.e. penderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor). Mae asesu yn erbyn y Gymraeg yn rhan allweddol o'r aseiad hwnnw. Mae'r AEIau ar gael ar wefan y Cyngor. |

Adran 4 – Safonau Gweithredu

| Sut rydym yn bwriadu cydymffurfio | Hyrwyddo a hwyluso |
|--|--|
| <p>Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol Bydd y Cyngor yn datblygu polisi mewnol ar gyfer staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi datblygu 'llyfryn Y Gymraeg – Beth sydd wedi newid' ac wedi datblygu ei dudalen mewnruyd. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am sut y gall staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd hyn yn cael ei droi'n bolisi ar gyfer staff sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan gefnogi adran gweithlu Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor. • Mae polisiâu Adnoddau Dynol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, bydd y rhain yn cael eu cyfieithu fel rhan o'r broses a'u cyhoeddi. • Mae cwynion a phrosesau disgyblu ar gael yn Gymraeg, defnyddir cyfieithu ar y pryd os oes angen. • Mae'r Cyngor yn tanysgrifio i Cysgliad sydd ar gael i'r holl staff. • Mae gwybodaeth am hyfforddiant ar gael i staff drwy'r fewnruyd. Mae cwrs Cymraeg lefel mynediad yn cael ei hyrwyddo i'r holl staff. Mae hyn hefyd yn ofyniad yn y broses benodi i bob rôl newydd. Mae'r staff wedi derbyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg. Ategir hyn gyda hyfforddiant ychwanegol fel rhan o strategaeth iaith Gymraeg newydd y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn adnewyddu ei broses sefydlu. Mae safonau'r Gymraeg yn rhan o hyn. |
| <p>Swyddi Newydd Pan gynigir swydd i unigolyn, bydd y Cyngor yn gofyn a yw'r unigolyn hwnnw am gael y contract cyflogaeth neu'r contract ar gyfer gwasanaethau yn Gymraeg.</p> | |
| <p>Polisiâu Adnoddau Dynol Bydd polisiâu Adnoddau Dynol perthnasol yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar y fewnruyd er mwyn i staff gael mynediad atynt.</p> | |
| <p>Cwynion a Disgyblu Mae'r prosesau hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd y Cyngor yn hwyluso hyn yn ôl y gofyn. Bydd dogfennau perthnasol ar gael yn ddwyieithog. Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael os bydd angen.</p> | |
| <p>Meddalwedd Mae meddalwedd sillafu Cymraeg ar gael i'r holl staff sy'n gofyn amdano. Caiff hyn ei hyrwyddo drwy uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi tanysgrifio i Cysgliad.</p> | |
| <p>Mewnruyd Mae hafan Gymraeg ar y fewnruyd ar gael yn Gymraeg gydag eitemau yn ymwneud â'r Gymraeg.</p> | |

| | |
|---|--|
| <p>Asesu Sgiliau Iaith Bydd y Cyngor yn asesu sgiliau Cymraeg ei weithwyr.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae arolwg o staff y Cyngor yn cael ei ddatblygu fel rhan o'n gwelliant parhaus. Defnyddir hwn i ddeall sgiliau staff a dewis iaith yn well. |
| <p>Hyfforddiant Hyfforddiant iaith Gymraeg – Gall staff gael mynediad at amrywiaeth o gyrsiau. Mae hyn yn cynnwys Cymraeg lefel mynediad (mae'n orfodol ar gyfer pob dechreuwr newydd). Caiff cyrsiau eu hysbysebu i'r staff ond cânt eu blaenoriaethu ar gyfer y staff hynny sy'n delio â'r cyhoedd. Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg – Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r hyfforddiant hwn gyda staff. Mae'r atgyfnerthu'n parhau.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r fewnwyd yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu i ddiwallu anghenion y staff yn well. Bydd darpariaeth Gymraeg yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo dyddiadau allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg (e.e. Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg). Mae hyn yn cysylltu â Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a digwyddiadau iaith Gymraeg. |
| <p>Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag Mae rheolwyr yn cwblhau asesiad o bob rôl, gan gynnwys natur y rôl a'r ddarpariaeth bresennol o fewn y gwasanaeth. Caiff yr asesiad hwn ei werthuso gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor cyn symud ymlaen i gyfweiliad. Mae'r Cyngor yn cynnwys y Gymraeg fel o leiaf yn ddymunol yn ei holl hysbysebion. Lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, mae'r Cyngor yn hysbysebu ar lwyfannau Cymraeg.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae asesiadau iaith Gymraeg wedi'u cynnwys ym mhroses foratoriwm y Cyngor i lenwi swyddi. Mae rheolwyr yn cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer pob rôl. Mae hyn yn cynnwys natur y rôl a'r ddarpariaeth bresennol o fewn y gwasanaeth. Caiff yr asesiad hwn ei werthuso gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor cyn symud ymlaen i gyfweiliad. Mae'r Cyngor yn cynnwys y Gymraeg fel o leiaf yn ddymunol yn ei holl hysbysebion swyddi. Lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, mae'r Cyngor yn hysbysebu ar lwyfannau Cymraeg. |
| <p>Ffurflenni Cais Bydd y Cyngor yn nodi y gellir cyflwyno ffurflenni cais yn Gymraeg â'n na fydd hyn yn arwain at driniaeth lai ffafriol na phe bai'r cais yn cael ei wneud yn Saesneg.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn ailddatblygu ei broses recriwtio fel rhan o raglen flaenoriaeth. Mae gofynion y Gymraeg yn ffocws allweddol i'r gwaith hwn. |
| <p>Llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r swyddfa a logo 'Cymraeg gwaith' Bydd llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r swyddfa ac arddangos y logo 'Cymraeg gwaith' (lle bo'n briodol) yn cael eu defnyddio gan staff. Bydd gwybodaeth ar gael i staff drwy'r fewnwyd ac oddi wrth y swyddog polisi.</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae arwyddion yn y dderbynfa, llofnodion e-bost a logos ar gael ar y fewnwyd. Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg ar gael i roi cymorth a chynghor. |
| <p>Arwyddion yn cael eu harddangos yng ngweithle corff Mae canllawiau ar arwyddion mewnol ar gael ar dudalen mewnwyd y Cyngor i staff gael mynediad atynt.</p> | |

Cyhoeddiadau sain a negeseuon yng ngweithle corff

Os bydd y Cyngor yn gwneud cyhoeddiad gan ddefnyddio offer sain yn y gweithle, caiff ei wneud yn Gymraeg (gyda'r Gymraeg yn gyntaf).

DRAFFET

Adran 5 – Monitro a goruchwyllo

Mae'r adran hon yn ystyried sut y caiff gwasanaethau a ddarperir, llunio polisiau a safonau gweithredol eu monitro o fewn CBS Merthyr Tudful.

Monitro'r Broses o Ddarparu Gwasanaethau

Darperir goruchwyliaeth strategol drwy'r Aelod Etholedig sydd â'r portffolio Cymraeg. Mae gan y Cyngor hefyd Aelod Etholedig sy'n Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg.

Bydd darpariaeth weithredol yn cael ei monitro drwy uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor a grwpiau llywio neu rwydweithiau rheolwyr perthnasol. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg a gymeradwyr gan y Cabinet ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

Cynhelir ymarfer siopwyr cudd sy'n bwydo i mewn i gynlluniau gwella gwasanaeth ac mae'r Gymraeg (fel gwasanaethau eraill) yn cyd-fynd â phrosesau rheoli perfformiad y Cyngor.

Monitro Llundio Polisiau

Mae gan y Cyngor offeryn asesu effaith integredig a ddefnyddir i lywio pob penderfyniad gan y Cabinet a'r Cyngor (gan gynnwys gwybodaeth a gyflwynir i'r Cabinet a'r Cyngor). Mae'r AEI hwn yn cynnwys y Gymraeg.

Mae gan y Cyngor Swyddog Polisi Iaith Gymraeg a Swyddog i gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth y Gymraeg a'r CSGA. Gall y swyddogion hyn roi cyngor ar bolisiau a phenderfyniadau allweddol.

Monitro Safonau Gweithredol

Mae prosesau Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys Mesur y Gymraeg. Mae'r Gymraeg wedi'i hintegreiddio â Chynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor. O'r herwydd, caiff ei fonitro gyda chynlluniau strategol allweddol eraill. Mae hyn yn golygu y bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet. Bydd yr uwch arweinwyr yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghyd â her o ran gweithredu.

Bydd newidiadau gweithredol penodol yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau darparu gwasanaethau. O'r herwydd, caiff hyn ei fonitro drwy lywodraethu presennol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys bod yn rhan o ymarferion hunanarfarnu sy'n bwydo yn y broses graffu. Bydd gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau yn cael eu rhannu ar draws y Cyngor drwy'r broses hon.

Mae'r broses benodi yn cynnwys dadansoddiad o ofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd. Mae rheolwyr yn cwblhau asesiad o bob rôl, gan gynnwys natur y rôl a'r ddarpariaeth bresennol o fewn y gwasanaeth. Caiff yr asesiad hwn ei werthuso gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor cyn symud ymlaen i gyfweiliad.